# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2020/21

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd:** Dylan Rees
**Parti:** Plaid Cymru **Ward:** Canolbarth Môn

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| **Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **Crynodeb o Bresenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | Cofnod Presenoldeb |
| Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) | |
| Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | |
| Pwyllgor Disgyblu | |
| Pwyllgor Grantiau Cyffredinol | |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | |
| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (Is-Gadeirydd) | |
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | |
| Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

| Corff allanol | Crynodeb o rôl a chyfraniad |
|---|---|
| - Panel Mabwysiadu Gwynedd a Môn | Fi yw'r unig gynrychiolydd Cynghorydd Sir dros Wynedd a Môn ar y Panel hwn. Mae'r Panel yn ymgymryd â'r gwaith pwysig o baru plant sydd yn barod i gael eu mabwysiadu gyda rhieni |

| | |
|---|---|
| | mabwysiadol darpar ac yn cyfarfod yn fisol i ystyried achosion unigol. |
| - Cyngor Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru (Pwyllgor Lleol Ynys Môn) | Rwyf un o’r tri Chynghorydd Sir Ynys Môn sy'n eistedd ar Gyngor Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru (CIC) sy'n sefydliad statudol annibynnol sy'n cynrychioli buddiannau cleifion a'r cyhoedd yn y GIG yng Ngogledd Cymru. Mae'r sefydliad yn cynnal arolygon yn rheolaidd i gael gwybodaeth am brofiadau cleifion o ddefnyddio'r GIG fel y gellir codi pryderon a gwneud gwelliannau. |
| - Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>- Pwyllgor Gwaith Tân ac Achub Gogledd Cymru | Rwyf yn un o'r tri Chynghorydd Sir Ynys Môn sydd wedi'u penodi i wasanaethu ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (NWFRA) sy'n monitro perfformiad a chyllideb Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Rwyf hefyd yn eistedd ar yr Is-Bwyllgor Gwaith. Yn ystod y Cyfarfod Blynyddol eleni ym mis Mai, mi gefais y fraint o gael fy ail-ethol fel Is-Gadeirydd yr Awdurdod. O ganlyniad rwyf yn cyfarfod yn rheolaidd gyda’r Cadeirydd a’r Prif Swyddog i drafod materion strategol a gweithredol. |
| - Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | Fi yw’r unig gynrychiolydd Cynghorydd Ynys Môn a |

| | |
|---|---|
| | benodwyd i wasanaethu ar Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (NWPCP). Rôl y Panel hwn yw monitro perfformiad a chyllideb Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. |
| - Llywodraethwr Ysgol / Ysgol Gynradd Bodffordd | Fi yw Dirprwy Gadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gymuned Bodffordd. Ynghyd â gweddill y Bwrdd roeddwn yn falch iawn o glywed ym mis Tachwedd y llynedd fod Pwyllgor Gwaith y Cyngor, fel rhan o'i Raglen Moderneiddio Ysgolion, wedi gwyrdroi ei benderfyniad i gau Ysgol Gymuned Bodffordd, rhywbeth yr oeddem i gyd wedi bod yn ymgyrchu drosto. O ganlyniad, bydd yr ysgol gynradd newydd sydd i'w hadeiladu yn Llangefni yn cwrdd ag anghenion Ysgol Corn Hir yn benodol. |
| - Llywodraethwr Ysgol / Canolfan Addysg y Bont, Llangefni | Rwyf yn Is-gadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Canolfan Addysg y Bont sy'n ysgol yn Llangefni sy'n darparu addysg i ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae gan y disgyblion ystod eang o anghenion dysgu, gan gynnwys anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anhwylderau sbectrwm awtistig. Mae nifer y disgyblion yn yr ysgol yn parhau i gynyddu ac mae |

| | |
|---|---|
| | cydbwyso'r gyllideb yn parhau i fod yn her fawr i'r corff llywodraethu. |

**2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Yn ogystal ag eistedd ar y pwyllgorau uchod, rwyf hefyd yn mynychu nifer o gyfarfodydd eraill yn rheolaidd ledled fy ward gan gynnwys:

**Cyfarfodydd Cyngor Tref a Chymuned** - Rwyf yn mynychu cyfarfodydd misol Cyngor Tref Llangefni yn rheolaidd fel fy mod yn medru cefnogi gwaith y Cyngor Tref yn fy rôl fel Cynghorydd Sir. Rwyf hefyd wedi cymryd y prif gyfrifoldeb ymysg y tri Chynghorydd Canolbarth Môn ar gyfer cefnogi Cyngor Cymunedol Llanddyfnan ac rwyf yn mynychu eu cyfarfodydd misol yn rheolaidd.

**Menter Gymdeithasol Llangefni -** Mae'r Fenter Gymdeithasol yn gyfrifol am Barc Chwaraeon Trefol Llangefni ac rwyf yn Gadeirydd y grŵp prosiect. Mae'r parc yn parhau yn hynod lwyddiannus gyda 80-100 o ddefnyddwyr yn ymweld â'r Parc yn ddyddiol i fynd ar eu sgwteri, sglefrfyrddio a defnyddio'r gampfa awyr agored a'r cwrt pêl-fasged.

**Gobaith Môn –** Mae hon yn Elusen yr wyf yn ei chefnogi ar sail bersonol ac rwyf yn Ysgrifennydd i'r ymddiriedolwyr. Mae'r sefydliad yn gweithio gyda phobl ifanc mewn ysgolion, eglwysi a chymunedau ar draws yr ynys i geisio darparu ar gyfer eu lles a'u helpu i gyrraedd eu potensial llawn.

**Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru**- Rwyf yn aelod o'r sefydliad hwn sydd wedi gwneud gwaith anhygoel yn ail-gyflwyno cynefinoedd addas i warchod rhywogaethau brodorol y wiwer goch e.e. Nant y Pandy, Llangefni.

**Partneriaeth Llangefni** - Rwyf yn aelod o'r Grŵp Adfywio lleol sydd yn dod ag unigolion a sefydliadau at ei gilydd gyda'r nod o adfywio Llangefni. Ar y cyd gyda Menter Môn mae'r Bartneriaeth wedi lansio cynllun peilot yn ddiweddar o'r enw "Patrwm" i sicrhau fod WiFi am ddim ar gael i ymwelwyr Canol Tref Llangefni, gyda'r gobaith o gynyddu'r nifer o ymwelwyr.

Ynghyd â mynychu cyfarfodydd amrywiol mae gennyf hefyd lwyth achosion rheolaidd wrth i mi geisio ymgymryd â gwaith ar ran fy etholwyr. Mae enghreifftiau o achosion yr wyf wedi delio â hwy dros y deuddeg mis diwethaf yn cynnwys:

- Cynllunio – codi gwrthwynebiadau i rai ceisiadau wrth ddarparu cymorth gyda cheisiadau eraill.
- Tai – darparu cyngor ynghylch y polisi dyrannu a chynorthwyo cleientiaid sydd dan fygythiad o ddigartrefedd neu sydd yn ceisio am drosglwyddiad.
- Priffyrdd – cynorthwyo gyda chwynion ynghylch goryrru, parcio a chyflwr wyneb y ffordd.
- Rheoli Gwastraff– cynorthwyo achwynwyr ynghylch casglu gwastraff.

- Diogelwch Cymunedol – gweithio gyda'r Heddlu ac asiantaethau partner eraill i fynd i'r afael â chwynion am fandaliaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Yn ystod dechrau’r cyfnod clo cyntaf mi wnes i wirfoddoli i gynorthwyo gyda danfon presgripsiynau i gleifion oedd yn hunan-ynysu. Mae'r canlynol yn gyfweliad ar fy nyletswyddau gwirfoddoli a gyhoeddwyd mewn Bwletin Medrwn Môn:

**Beth wnaeth wneud i chi benderfynu gwirfoddoli yn ystod y cyfnod hwn?**
Rwyf yn Gynghorydd Sir ar gyfer ward Canolbarth Môn ac wedi credu’n gryf erioed fod gwleidyddion yn cael eu hethol i WASANAETHU y cymunedau maen nhw’n eu cynrychioli. Pan welais fod Menter Môn yn recriwtio gwirfoddolwyr lleol a oedd eisiau helpu yn ystod argyfwng Covid 19, rhoddais fy enw ymlaen.
**Pa fath o wirfoddoli ydych chi’n ei wneud?**
Rwyf wedi bod yn helpu yng Nghoed y Glyn sef meddygfa leol yn Llangefni. Mae ganddynt nifer o gleifion bregus sydd yn gorfod hunan-ynysu ac sydd angen presgripsiynau wedi eu danfon i’w cartrefi yn rheolaidd. O ganlyniad rwyf nawr yn yrrwr gwirfoddol ar gyfer y feddygfa.
**Pa mor brysur ydych chi?**
Fel arfer gofynnir i mi ddanfon presgripsiynau tua thair gwaith yr wythnos sydd yn cymryd cwpl o oriau i mi am fy mod yn teithio mor bell i'r Gogledd â Phentraeth, mor bell i’r dwyrain a Gaerwen, mor bell i’r de a Llangristiolus ac mor bell i’r gorllewin a Tyn Lon. Fel arfer, rydw i'n dosbarthu tua 40 o bresgripsiynau'r wythnos a hyd yma rydw i wedi dosbarthu tua 350.
**Ydych chi’n mwynhau’r gwaith?**
Yn sicr. Er nad yw’r gwaith yn drafferth fawr rwyf yn medru gweld fod y cleifion yn hynod werthfawrogol o’r gwasanaeth hwn. Rydw i bob amser yn gosod y pecyn presgripsiwn wrth y drws ac yna'n camu’n ôl ar ôl curo ar y drws. Pan maent yn dod at y drws, byddaf bob amser yn cael ymateb cynnes a gwerthfawrogol sydd bob amser yn braf. Mae fy ngwraig hefyd yn gwerthfawrogi nad ydw i o dan draed!
**Beth yw’r peth gwaethaf sydd wedi digwydd i chi?**
Mi oedd bwthyn a oedd ar ddiwedd lôn gefn un trac ac roedd giât yr eiddo dan glo. Mi oedd rhaid i felly ddringo dros y giât i gyrraedd y bwthyn. Mi oedd y preswylydd yn ymddangos wedi synnu fy mod wedi dod at y drws ac wrth i mi ddringo’n ôl dros y giât mi wnes i sylweddoli pam. Mi oedd saim ar hyd y giât! Ar nodyn mwy positif nid wyf wedi cael problemau gyda chŵn hyd yn hyn!
**Beth wnewch chi ei gofio orau pan ddaw'r cyfnod hwn i ben?**
Fel llawer o rai eraill, rwyf wedi bod yn mynd allan am 8.00pm ar nos Iau i gymeradwyo ein gweithwyr GIG a'n Gofalwyr sydd ar y rheng flaen yn gwneud gwaith mor bwysig. Ni allwn i gyd fod ar y rheng flaen ond gallwn i gyd gyfrannu mewn rhyw ffordd. Fel dywedodd Dewi Sant – “Gwnewch y pethau bychain.”




Dros y misoedd diwethaf rwyf wedi bod yn parhau gyda fy nyletswyddau gwirfoddoli drwy ymuno â'r prosiect "Bwyd da Môn". Mae'r sefydliad wedi'i sefydlu i gasglu bwyd gan gyflenwyr bwyd lleol a fyddai fel arall wedi mynd i safleoedd tirlenwi. Am ddim ond £5 yr wythnos gall aelodau dderbyn o leiaf £20 o gynnyrch gan gynnwys cig ffres ac wedi'i rewi, ffrwythau ffres a llysiau. Mae hwn yn brosiect gwych sydd nid yn unig o fudd i'r gymuned ond sydd hefyd yn diogelu'r amgylchedd. Mae'r llun canlynol yn fy nangos yn helpu allan yn safle Llangefni.



**4 - Dysgu a Datblygu**

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn): Hyfforddiant

**5 - Gweithgareddau a Materion Eraill**

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma: Cynghorydd Dylan Rees

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd Dylan Rees** | **Mehefin 2021** |